Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth addysg bellach

## Grŵp Llandrillo Menai

**Ffordd Llandudno**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4HZ**

**Ebrill 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o roi cynnig ar ein trefniadau arolygu newydd. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn â Grŵp Llandrillo Menai

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Grŵp Llandrillo Menai |
| Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf, e.e. newidiadau yn enw’r darparwr neu’r campysau, uno, cyfuno neu newid mewn perchnogaeth | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach amser llawn | 4,840 |
| Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach rhan-amser | 6,730 |
| Manylion am ddarpariaeth / rhaglenni addysg bellach y coleg (h.y. mwy ar gymeriad y coleg a’i arbenigeddau) | Sefydlwyd Grŵp Llandrillo Menai yn 2012 o ganlyniad i uno rhwng Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor. Mae Grŵp Llandrillo Menai yn goleg addysg bellach mawr sydd â thua 11,570 o ddysgwyr AB wedi’u cofrestru (data diweddaraf blwyddyn lawn yn ymwneud â 2022-2023). O’r rhain, mae 4840 yn gofrestriadau amser llawn, a 6,730 yn gofrestriadau addysg bellach rhan-amser. Dyraniad cyllid y coleg yn 2023-2024 ar gyfer darpariaeth AB yw tua £47.1m.<br><br>Mae’r coleg yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau addysg alwedigaethol ac addysg gyffredinol ar draws gwahanol lefelau ac ardal ddaearyddol fawr sy’n cwmpasu Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd. Mae Grŵp Llandrillo Menai yn gweithredu ar draws campysau yn Llandrillo-yn-Rhos, Llangefni, Dolgellau, Y Rhyl, Bangor, Parc Menai (Celf a Dylunio), Parc Menai (Busnes@), Glynllifon, Pwllheli, Pwllheli (Hafan), Dolgellau (CaMDA), Abergele a Chaernarfon. Mae Glynllifon yn gampws amaethyddol gyda fferm weithio a chyfleusterau preswyl wedi eu lleoli ar Ystâd Glynllifon ger Caernarfon. Cynhelir rhaglenni Medrau Byw yn Annibynnol (MBA) mewn pump o’r campysau, ac mewn un lleoliad cymunedol. |
| Nifer y dysgwyr â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) | 340 |

| | |
|---|---|
| Nifer y dysgwyr sy’n derbyn gofal: | 101 |
| Canran y dysgwyr sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu’n nodi eu bod yn siarad Cymraeg | 41% |
| Nifer y dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig | 415 |
| Canran y dysgwyr o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig (y ddau gwintel uchaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) | 26% |
| Canran y dysgwyr sy’n hawlio Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) | 28% |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gyflogir yn uniongyrchol gan y coleg | 697 o athrawon<br>430 o weithwyr cymorth dysgu |
| Perchnogaeth o’r coleg (corfforaeth addysg bellach annibynnol neu is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr sefydliad addysg bellach | Corfforaeth addysg bellach annibynnol |
| Dyddiad penodi’r Prif Weithredwr | Ebrill 2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 27/02/2017 |

## Crynodeb

Ar draws ystod eang darpariaeth Grŵp Llandrillo Menai, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn hapus, wedi eu cymell yn dda ac yn falch o’u cynnydd. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau pwnc neu fedrau galwedigaethol cryf. Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ar draws pob campws, ac yn barchus, ystyriol a chwrtais.

Mae presenoldeb llawer o ddysgwyr yn dda, ac maent yn cyrraedd gwersi’n brydlon. Fodd bynnag, mae pa mor dda y mae athrawon yn herio presenoldeb a phrydlondeb gwael yn rhy amrywiol.

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc a phrofiad da. Maent yn hawdd mynd atynt ac yn gyfeillgar, ac yn cefnogi eu dysgwyr yn dda. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn rhoi cymorth effeithiol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sydd â chynllun datblygu unigol. Mae dysgwyr medrau byw yn annibynnol (MBA) yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol a’u cyrchfannau dilyniant cynlluniedig.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi’n effeithiol. Maent yn rhannu amcanion dysgu clir gyda dysgwyr ac yn defnyddio ystod briodol o ddulliau addysgu. Mae gan y mwyafrif ohonynt ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr.

Mae addysgu a dysgu dwyieithog yn nodwedd gref a nodedig yn y coleg. Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gwersi dwyieithog ac yn fodelau rôl cryf o ran iaith. Maent yn newid yn ddi-dor rhwng Cymraeg a Saesneg, gan gynnwys defnyddio terminoleg sy'n briodol i bwnc. Fodd bynnag, nid oes digon o ddysgwyr â safonau uchel o Gymraeg llafar yn dewis cwblhau gwaith ysgrifenedig neu asesiadau yn Gymraeg.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol ac adeiladol yn ysgrifenedig ac ar lafar i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw tua hanner ohonynt yn defnyddio technegau holi yn ddigon da i ymestyn a herio dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio technoleg ddysgu yn dda ac mae ganddynt fedrau dysgu digidol cryf. Mewn meysydd galwedigaethol, mae athrawon a dysgwyr yn elwa ar amgylcheddau dysgu proffesiynol a realistig, sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu medrau perthnasol a pharatoi'n ddiogel ar gyfer cyflogaeth.

Mae dysgwyr ar y rhan fwyaf o raglenni addysg alwedigaethol ac addysg gyffredinol yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau sy'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol, neu'n uwch, ac o gymharu â dysgwyr o gefndir tebyg. Fodd bynnag, mae angen gwella cyrhaeddiad graddau uchel ar ddarpariaeth raddedig, yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol ac UG / Safon Uwch.

Ar draws pob campws, ceir diwylliant croesawgar, agored a pharchus lle caiff amrywiaeth ei dathlu, ac mae staff a dysgwyr yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau dod i'r coleg ac yn teimlo'n ddiogel a saff. Ceir diwylliant diogelu sefydledig gyda pherthnasoedd gweithio cryf rhwng timau addysgu, lles a diogelu ac asiantaethau allanol perthnasol.

Mae dysgwyr yn elwa ar ddefnyddio ystod eang o wasanaethau cymorth sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion, gan gynnwys cwnsela, cymorth â lles, ymarferwr iechyd meddwl a nyrs coleg. Maent yn gwerthfawrogi amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi, yn cynnwys clybiau amser cinio, sesiynau lles gweithredol, cystadlaethau medrau, tripiau, ymweliadau a siaradwyr gwadd.

Mae'r Grŵp a'i bartneriaid, yn cynnwys ysgolion ac awdurdodau lleol, wedi sefydlu prosesau pontio hynod effeithiol i'r coleg sy'n cefnogi dysgwyr yn dda ar draws amrywiaeth o lwybrau mynediad. Yng nghamau olaf eu rhaglenni dysgu yn y coleg, mae dysgwyr hefyd yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad buddiol ar gyfleoedd dilyniant, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, a chyflogaeth.

Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr wedi sefydlu strwythur grŵp effeithiol sy'n cefnogi a hyrwyddo hunaniaeth unigryw pob coleg cyfansoddol, a'i gysylltiadau â'r gymuned. Mae hyn yn eu helpu i ymateb yn briodol i nodweddion cymdeithasol ac economaidd y gwahanol gymunedau a bröydd y maent yn eu gwasanaethu. Mae'r coleg yn aelod gweithgar o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae gan y coleg rôl bwysig hefyd mewn ehangu arlwy'r cyrsiau sydd ar gael i ddisgyblion ar draws yr ardal, i ddisgyblion 14 i 16 oed a disgyblion chweched dosbarth, fel ei gilydd.

Mae gan y bwrdd llywodraethol drosolwg clir o waith y Grŵp, ac maent yn darparu her reolaidd ac effeithiol i uwch arweinwyr. At ei gilydd, mae uwch arweinwyr ac

arweinwyr canol yn defnyddio gwybodaeth yn dda fel rhan o drefniadau hunanwerthuso a monitro. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn ystyried ansawdd yr addysgu a safon gwaith dysgwyr yn ddigon da, ac nid yw'r trefniadau ar gyfer gwerthuso cyrhaeddiad graddau dysgwyr wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae staff yn elwa ar ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol, gan gynnwys 'diwrnodau adolygu a gwerthuso' defnyddiol i helpu rhannu arfer dda ac ysgogi gwelliant.

Mae uwch arweinwyr yn cynllunio ac yn rheoli cyllid y coleg yn dda, ac yn defnyddio dull rhagweithiol o ran tueddiadau economaidd, newidiadau cyllid a datblygiadau technolegol. Mae hyn yn galluogi'r coleg i gynnal ei arlwy eang o gyrsiau ar draws yr holl ardaloedd daearyddol a wasanaethir ganddo, yn ogystal â buddsoddi yn natblygiad parhaus cyfleusterau'r coleg.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r coleg i barhau i wella, sef:

A1 Gwella effaith yr addysgu ar ansawdd y dysgu, gyda ffocws ar holi, asesu ffurfiannol ac ymestyn a her

A2 Gwella cyrhaeddiad graddau uchel ar ddarpariaeth raddedig, yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol ac UG / Safon Uwch

A3 Mynd i'r afael â materion presenoldeb a phrydlondeb gwael dysgwyr yn gyson ar draws campysau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Nid yw'r coleg mewn categori gweithgarwch dilynol. Yn unol ag adran 80 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, bydd y darparwr yn paratoi a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i gynllun gweithredu yn sgil yr adroddiad arolygu. Byddwn yn ystyried cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ein hymweliadau rheolaidd gan arolygwyr cyswllt.

## Prif ganfyddiadau

### Maes arolygu 1: addysgu a dysgu

Ar draws ystod darpariaeth y Grŵp, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gweithio ar y safon briodol ar gyfer eu mannau cychwyn a'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn erbyn eu nodau cymhwyster. Mae llawer ohonynt yn dangos medrau pwnc neu fedrau galwedigaethol cryf. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianneg lefel 2 yn defnyddio turnau, peiriannau melino ac offer gwaith metel â medr a manwl gywirdeb i greu eitemau o ansawdd da.

Mae dysgwyr y cyfryngau digidol yn creu a golygu fideos, ac yn datblygu byrddau stori a sgriptiau ar gyfer ffilmiau byr. Mae dysgwyr therapi harddwch yn nodi cynhyrchion persawrus i wella triniaethau ymlaciol i'r wyneb gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau tylino. Mae dysgwyr Ffrangeg Safon Uwch yn cyflwyno testun yn hyderus, ac yn ateb cwestiynau digymell gan eu cyfoedion. Mae dysgwyr astudiaethau crefyddol UG yn trafod rhinweddau gwahanol safbwyntiau ar natur Duw.

Caiff dysgwyr eu cynorthwyo'n dda gan eu hathrawon. Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc dda, ac yn bobl hawdd mynd atynt a chyfeillgar. Maent yn canmol ac annog eu dysgwyr yn dda, ac yn sefydlu cydberthynas dda a pherthnasoedd gweithio parchus â nhw. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwrando'n barchus ar eu hathrawon a'u cyfoedion, yn ystyriol a chydwybodol, ac yn gwrtais ag ymwelwyr a staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi ymgysylltu, yn hapus ac wedi'u cymell yn eu sesiynau, ac yn falch o'u cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda yn annibynnol ac yn ymroi yn addas i'w tasgau er mwyn eu cwblhau. Pan roddir cyfleoedd i lawer ohonynt ymgymryd â gwaith grŵp, maent yn gwneud hynny'n effeithiol.

**Sbotolau ar gyflwyno dwyieithog**

Mae llawer o ddysgwyr ac athrawon ar gampysau Glynllifon, Llangefni, Dolgellau a Phwllheli yn siarad Cymraeg. Ar y campysau hyn, mae iaith y dysgu yn newid yn ddi-dor rhwng Cymraeg a Saesneg. Mae athrawon yn paratoi a chyflwyno deunyddiau addysgu dwyieithog, ac mae dysgwyr yn rhydd i ymateb i gwestiynau athrawon, neu ymgymryd â mewn sgyrsiau dosbarth, yn y naill iaith neu'r llall, neu yn y ddwy iaith.

Mae athrawon yn fodelau iaith cryf yn y ddwy iaith, ac yn ofalus i ddweud brawddegau llawn gyda gwybodaeth neu gyfarwyddiadau yn llawn yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel bod dysgwyr yn clywed y derminoleg a'r strwythur iaith cywir yn y ddwy iaith.

Mae addysgu a dysgu dwyieithog yn nodwedd gref ac arbennig yn y coleg. Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gwersi dwyieithog yn fedrus. Ar gampysau Glynllifon, Llangefni, Dolgellau a Phwllheli, lle mae lefel gymharol uchel o'r brif boblogaeth yn siarad Cymraeg, mae dysgwyr yn defnyddio Cymraeg llafar fel iaith naturiol y dysgu, gan siarad Cymraeg gydag athrawon a chyfoedion. Mae safonau Cymraeg llafar dysgwyr yn uchel. Mae dysgwyr ac athrawon yn defnyddio technegau trawsieithu ac yn newid yn ddi-dor rhwng Cymraeg a Saesneg yn briodol, gan ddefnyddio terminoleg pwnc yn y ddwy iaith. Mae athrawon yn fodelau iaith cryf yn y ddwy iaith. Er bod llawer o'r addysgu a'r dysgu yn digwydd yn Gymraeg ar y campysau hyn, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n dewis cwblhau asesiadau ysgrifenedig neu waith ysgrifenedig arall yn Gymraeg. Pan mae dysgwyr yn cwblhau gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, mae ansawdd eu hysgrifennu yn dda, ar y cyfan.

Ar gampysau Llandrillo-yn-Rhos a'r Rhyl, lle mae lefel gymharol isel o'r brif boblogaeth yn siarad Cymraeg yn naturiol, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith y dysgu, hyd yn oed gyda dysgwyr eraill

sy’n siarad Cymraeg. Ar y campysau hyn, nid yw dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da trwy eu hastudiaethau.

Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sydd â chynllun datblygu unigol yn elwa ar gymorth gan gynorthwywyr cymorth dysgu yn y dosbarth, ac yn gwneud cynnydd cadarn mewn sesiynau. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu hefyd yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer y dysgwyr hynny nad oes ganddynt gynllun datblygu unigol, ond sydd, serch hynny, yn cael trafferth â rhai agweddau ar eu dysgu. At ei gilydd, mae dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cwblhau eu rhaglenni’n llwyddiannus ar gyfraddau sydd fymryn islaw cyfartaledd y coleg.

Mae bron pob un o’r dysgwyr MBA yn gwneud cynnydd cadarn dros eu cyfnod yn y coleg wrth weithio tuag at eu targedau unigol. Maent hefyd yn gwneud cynnydd cadarnhaol i’w cyrchfan cynlluniedig, er enghraifft cymorth cymunedol, cyflogaeth neu gyrsiau prif ffrwd. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau digidol ac yn defnyddio adnoddau a meddalwedd ddigidol i gefnogi eu dysgu. Maent yn dysgu am y medrau pwysig y bydd eu hangen arnynt yn y gweithle ac yn ymarfer y rhain trwy gyfleoedd i wirfoddoli a chwblhau profiad gwaith, er enghraifft mewn atyniadau lleol i dwristiaid. Mewn ychydig o achosion, mae’r cyfleoedd hyn yn arwain at gyflogaeth â thâl. Mae hyn yn gynnydd sylweddol i’r dysgwyr hyn. Mewn ychydig o sesiynau MBA, caiff cynnydd dysgwyr ei rwystro gan weithgareddau papur, fel torri a gludo, nad ydynt yn atgyfnerthu dysgu yn ystyrlon.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu sesiynau yn addas. Maent yn rhoi amcanion dysgu clir i ddysgwyr ac yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu priodol i’w cynorthwyo i alw dysgu blaenorol i gof, datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth, a chymhwyso hyn i gyd-destunau newydd. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu a thuag at eu nodau cymhwyster. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio’n dda yn annibynnol ar dasgau a phrosiectau. Mae llawer ohonynt yn gweithio’n ddiwyd ac yn dal ati i ganolbwyntio.

Mae gan fwyafrif yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn defnyddio’u brwdfrydedd a’u harbenigedd yn eu meysydd pwnc yn effeithiol i gynllunio a chyflwyno sesiynau i sicrhau cynnydd cryf y dysgwyr. Maent yn darparu cydbwysedd da rhwng esboniadau a gweithgareddau athrawon, ac yn defnyddio ystod eang o adnoddau ystyrlon, perthnasol a difyr i sicrhau ymgysylltiad cryf. Er enghraifft, mewn mynediad at ofal iechyd addysg uwch, mae gwybodaeth yr athro am strwythur y llwybr anadlu, a’i brofiad o hyn, a’r ffordd y mae system anadlol yr ysgyfaint yn gweithio, yn ennyn chwilfrydedd a diddordeb diffuant ymhlith dysgwyr.

Mewn sesiynau lle mae’r addysgu ar ei gryfaf, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau pwnc neu fedrau galwedigaethol cryf. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianneg forwrol yn rhoi gwasanaeth i beiriannau allanol, yn canfod diffygion ac yn dogfennu eu gwaith yn gywir. Mae dysgwyr TG yn defnyddio ieithoedd rhaglennu yn fedrus i greu apiau newydd ar gyfer ffonau symudol. Mae dysgwyr amaethyddiaeth a gofal anifeiliaid yn pwyso ŵyn ac yn profi gwartheg am y diciâu â hyder a gofal.

Mae athrawon a dysgwyr yn elwa ar amgylcheddau dysgu proffesiynol a realistig sy’n efelychu lleoliad gwaith go iawn yn effeithiol gan ddefnyddio offer a deunyddiau

priodol. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau perthnasol a pharatoi'n ddiogel ar gyfer cyflogaeth.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn oddefol o ran eu dysgu ac yn amharod i gyfrannu at drafodaeth ddosbarth. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn herio eu hunain i wneud yn well, ac maent yn fodlon â chyflymdra cynnydd cymedrol a graddau is. Weithiau, mae hyn oherwydd y diffygion mewn addysgu.

Mewn lleiafrif bach o wersi, nid yw athrawon yn sicrhau cydbwysedd rhwng esboniadau athrawon a gweithgareddau dysgwyr yn ddigon da. Nid yw'r athrawon hyn yn ennyn dysgwyr yn ddigonol, ac o ganlyniad, mae rhai ohonynt yn dibynnu gormod ar esboniadau eu hathrawon neu gyfraniadau ychydig o ddysgwyr sy'n tueddu i reoli trafodaethau. Mewn achosion eraill, nid yw athrawon yn addasu tasgau, cwestiynau neu ddulliau addysgu yn ddigon da i ddiwallu gwahanol anghenion dysgwyr, neu maent yn darparu tasgau sy'n cadw dysgwyr yn brysur ond ddim yn eu hymestyn a'u herio'n ddigonol. Mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd dysgwyr mwy abl a thalentog yn benodol. Nid yw ychydig o sesiynau dysgu'n annibynnol bob amser yn cael eu hwyluso mewn ffordd mor gynhyrchiol ag y gallent, ac mae cynnydd dysgwyr yn y sesiynau hyn yn gymedrol.

**Sbotolau ar addysgu hybrid**

Cyflwynir nifer fach o sesiynau trwy ddefnyddio dulliau hybrid – gyda rhai dysgwyr yn bresennol yn y dosbarth, a dysgwyr eraill yn ymuno ar-lein. Mae'r athro yn cynllunio'r sesiwn yn ofalus gydag amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys esboniadau athrawon, gweithgarwch unigol, clipiau fideo a gwaith grŵp ar y cyd.

Mae'r athro yn defnyddio offer fel byrddau gwyn rhyngweithiol digidol i wneud yn siŵr fod pob un o'r dysgwyr yn cyfrannu ac yn rhannu eu syniadau. Mae dysgwyr mewn gwahanol leoliadau yn cydweithio ar yr un dasg. Mae'r athro'n rhoi llinellau amser clir i ddysgwyr weithio ar bob tasg, ac mae cyflymdra'r dysgu yn briodol. Mae dysgwyr yn gynhyrchiol ac yn parhau i ganolbwyntio, ac yn mwynhau'r sesiwn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio technoleg ddysgu yn effeithiol ac mae ganddynt fedrau dysgu digidol da. Maent yn defnyddio'r amgylchedd e-ddysgu yn hyderus. Er enghraifft, mewn sesiwn addysgu hybrid, mae dysgwyr yn defnyddio offer dysgu ar y cyd ar-lein yn dda i rannu syniadau, cyfrannu at weithgareddau grŵp a chyfathrebu â'u cyfoedion o bell. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig digidol sy'n gywir ac wedi'i gyflwyno'n dda, er bod ychydig ohonynt yn gwneud camgymeriadau na chânt eu cywiro, fel peidio â rhoi 'I' fel priflythyren (yn Saesneg) neu'n defnyddio brawddegau wedi'u strwythuro'n wael. Mae athrawon yn sicrhau bod dysgwyr yn deall ac yn defnyddio terminoleg pwnc yn gywir. Fodd bynnag, mae gwendidau yn eglurder gwaith llawysgrifen ac ysgrifenedig ychydig o ddysgwyr. I ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol, mae hyn yn effeithio ar eu gallu i gadw cofnodion cywir a darllenadwy sy'n angenrheidiol ar gyfer y gweithle. Mae hefyd yn creu anfantais i'r dysgwyr hynny sy'n ymgymryd ag asesiadau allanol. Mewn pynciau lle mae medrau mathemategol yn elfen hanfodol, mae lleiafrif o ddysgwyr yn cael trafferth â mathemateg neu gysyniadau rhifedd sy'n ofynnol ar gyfer y cwrs y maent yn ei astudio.

Mae llawer o athrawon yn cylchu ymhlith dysgwyr, yn asesu eu gwaith ac yn rhoi adborth a chyngor defnyddiol ar lafar. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio holi datblygiadol a hiwmor i lywio dysgwyr yn fedrus tuag at ymatebion mwy ystyriol neu gywir, ac yn ymestyn a herio meddwl dysgwyr, er enghraifft yn ystod trafodaeth ddosbarth. Yn yr achosion hyn, mae llawer o ddysgwyr yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau ystafell ddosbarth neu grŵp bach, yn cynnig ymatebion tra ystyriol ac yn defnyddio terminoleg sy’n benodol i bwnc yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw tua hanner yr athrawon yn defnyddio ystod ddigon eang o dechnegau holi i ymestyn a herio dysgwyr. Mewn ychydig o achosion, mae asesu ffurfiannol yn rhy fyr i fod yn ystyrlon. Mae ychydig o ddysgwyr yn ansicr ynghylch eu dysgu blaenorol a’u cysyniadau pwnc, gan effeithio ar eu gallu i haenu gwybodaeth newydd ar sylfeini cryf. Caiff hyn ei waethygu lle nad yw athrawon yn gwirio gwybodaeth, dealltwriaeth neu gynnydd dysgwyr trwy ddefnyddio asesu ffurfiannol neu ddiagnostig yn ddigon da i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig buddiol ac adeiladol. Er enghraifft, maent yn cydnabod lle mae dysgwyr yn cyfeirio’n gywir at derminoleg a chysyniadau allweddol, ac yn cyflawni amcanion asesu. Maent hefyd yn nodi’n glir lle mae dysgwyr wedi gwneud camgymeriadau, ac yn rhoi cywiriadau mewn rhai achosion. Mae ychydig o diwtoriaid yn rhoi adborth ysgrifenedig ffurfiannol manwl iawn, sy’n darparu arweiniad clir i ddysgwyr ar yr hyn sydd angen ei wella, a sut i wella ansawdd eu gwaith. Pan nad yw ansawdd yr adborth ysgrifenedig mor effeithiol, mae hyn yn aml oherwydd nad yw athrawon yn esbonio’n glir i ddysgwyr sut gallent wella’u gwaith.

Mae mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 Llywodraeth Cymru 2022-2023 yn dangos bod dysgwyr ar y rhan fwyaf o raglenni galwedigaethol wedi cwblhau eu cymwysterau yn llwyddiannus, ar y cyfan, ar gyfraddau sy’n debyg i gyfartaleddau cenedlaethol neu'n uwch, ac o gymharu â dysgwyr o gefndir tebyg. Roedd cyfraddau cwblhau yn llwyddiannus uwchlaw’r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer lefel 2 a mynediad at gyrsiau addysg uwch. Roedd cyfraddau llwyddiant ychydig uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol ar lefel 1, ac yn gyfartal i’r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer cyrsiau galwedigaethol lefel 3.

Yn 2022-2023, roedd tua 225 o ddysgwyr Safon Uwch yn y coleg. Llwyddodd dysgwyr a oedd yn ymgymryd â rhaglenni addysg gyffredinol i ennill eu cymwysterau, fel arfer tri chymhwyster Safon Uwch neu fwy dros ddwy flynedd, ar gyfradd ychydig uwchlaw’r cyfartaledd cenedlaethol. Parhaodd llawer o ddysgwyr o flwyddyn 1 i flwyddyn 2 eu hastudiaethau. Fodd bynnag, roedd cyfran y dysgwyr yn cyflawni graddau A* i C mewn Safon Uwch gryn dipyn yn is na chyfartaleddau cenedlaethol, ac ychydig yn is na’r cyfartaledd o gymharu â dysgwyr o gefndir tebyg. Roedd y graddau a gyflawnodd dysgwyr ar gyfer y dystysgrif her medrau hefyd yn nodedig is na chyfartaleddau cenedlaethol.

Cwblhaodd dysgwyr eu cymwysterau’n llwyddiannus ar y cyfraddau cryfaf mewn meysydd pwnc fel technolegau gweithgynhyrchu, iechyd a gofal cymdeithasol, ac amaethyddiaeth. Roedd cyfraddau cwblhau’n llwyddiannus gryn dipyn islaw cyfartaleddau cenedlaethol mewn rheoli busnes, gwasanaethau cyhoeddus, peirianneg a gweinyddu.

I wella addysgu a dysgu ymhellach, dylai’r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- datblygu medrau Cymraeg dysgwyr ar gampysau Llandrillo-yn-Rhos a'r Rhyl, a chyfran y dysgwyr sy'n gwneud gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg
- tasgau, cwestiynau a dulliau addysgu i ymestyn a herio pob dysgwr yn ddigonol, ac yn benodol, anghenion dysgwyr mwy abl a thalentog
- cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch mewn darpariaeth raddedig, ar raglenni galwedigaethol a Safon Uwch
- ystod y technegau holi i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr
- sesiynau addysgu i sicrhau cydbwysedd rhwng esboniadau athrawon a gweithgareddau dysgwyr yn ddigon da
- cwblhau'n llwyddiannus mewn rheoli busnes, gwasanaethau cyhoeddus, peirianneg a gweinyddu

### Maes arolygu 2: lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn darparu diwylliant croesawgar a pharchus i ddysgwyr ar draws pob campws. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau dod i'r coleg ac yn teimlo'n ddiogel a saff. Yn ystod eu cwrs astudio, mae staff a dysgwyr yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos ymddygiadau cadarnhaol ac maent yn sylwgar a chwrtais mewn sesiynau. Mae hyn yn gryfder nodedig ar draws y coleg. Pan na fydd dysgwyr yn bodloni'r disgwyliadau uchel hyn, mae staff yn ymateb yn gyflym ac yn barchus, gan gynnig cymorth a hyfforddiant i'r dysgwyr hyn trwy ddefnyddio dull adferol. Mae hyn yn cynorthwyo datblygu ymddygiadau parchus ymhellach.

Ar draws pob campws, mae'r coleg yn croesawu diwylliant agored lle caiff amrywiaeth ei ddathlu. Mae'r rhaglen diwtorial yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr amser llawn ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn meysydd pwysig. Er enghraifft, maent yn dysgu am radicaleiddio, gwrth-hiliaeth o fewn cyd-destun Diwrnod Stephen Lawrence neu Ddiwrnod Hijab y Byd, yn ogystal â dathlu diwylliant Cymreig. Fodd bynnag, mae ansawdd a chysondeb cyflwyno'r rhaglen diwtorial yn rhy amrywiol ar draws campysau.

Mae'r coleg yn darparu ystod o wasanaethau cymorth hynod fuddiol ar draws pob campws i ddiwallu anghenion dysgwyr yn arbennig o dda. Er enghraifft, mae'r coleg yn darparu sesiynau medrau astudio, cwnsela, cymorth â lles, ymarferwr iechyd meddwl a nyrs coleg. Mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r cymorth ehangach sydd ar gael iddynt, ac yn teimlo'n hyderus i fanteisio ar hyn, gydag un yn nodi bod 'cymorth ar gael trwy anfon neges e-bost'.

**Sbotolau ar gefnogi iechyd corfforol ac iechyd meddwl dysgwyr**

Mae gan y coleg ddwy rôl arbenigol allweddol i gynorthwyo dysgwyr, sef: nyrs coleg ac ymarferwr iechyd meddwl. Mae'r nyrs, sydd wedi bod yn ymgymryd â'r rôl am 3 blynedd, yn cynorthwyo dysgwyr ag anghenion penodol, gan sicrhau mynediad at offer arbenigol a chwblhau asesiadau risg ar gyfer cyflyrau amrywiol. Eleni, mae 450 o ddysgwyr wedi derbyn cymorth gan y nyrs.

Mae'r ymarferwr iechyd meddwl, a ddechreuodd yn ei swydd yn ddiweddar, yn delio ag achosion y nodwyd eu bod yn risg ganolig i uchel, yn cydlynu cynlluniau gofal â

staff addysgu a gwasanaethau allanol, ac wedi cynorthwyo 80 o ddysgwyr hyd yma yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Nod y ddwy rôl, sy'n weithredol ar draws pob campws, yw gwella lles dysgwyr a chynnwys monitro parhaus, atgyfeiriadau i wasanaethau allanol, ac adborth gan ddysgwyr a'u rhwydweithiau.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd cyfoethogi sydd ar gael iddynt, yn cynnwys y gwasanaeth llyfrgell, clybiau a digwyddiadau amser cinio, yn ogystal â'r cynnig lles gweithredol. Mae'r cynnig hwn yn darparu ystod o weithgareddau ystyrlon i ddysgwyr ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol. Er enghraifft, ar gampws Llandrillo-yn-Rhos, mae dysgwyr yn elwa ar brofiad disgo tawel hwyliog a sesiynau chwaraeon rhydd. Ym Mangor a Pharc Menai, mae dysgwyr yn datblygu 'zines' i rannu gwybodaeth â'u cyfoedion, er enghraifft ar y cysylltiad rhwng gwlân o Gymru a chaethwasiaeth. Mae dysgwyr ar gampysau Llangefni a Phwllheli yn mynd i lyfrgelloedd i ddefnyddio clustffonau realiti rhithwir ar gyfer hamdden, a datblygu eu medrau cyfweld.

Mae'r coleg yn darparu mwy o gyfleoedd cyfoethogi trwy gysylltiadau â'r gymuned, er enghraifft cysylltiadau ag Undeb Rygbi Cymru, i ddarparu ymweliadau â'r stadiwm, ymarferion rygbi a chyfleoedd dyfarnu ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys ar gyfer y rhai ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol. Ar draws campysau, mae ystod o fentrau yn darparu siaradwyr gwadd difyr, yn cynnwys cyflogwyr ac arbenigwyr diwydiant. Mae dysgwyr yn elwa ar ystod o ymweliadau addysgol ar draws rhaglenni astudio, fel trip hwylio am wythnos ar gyfer dysgwyr peirianneg forwrol yn Yr Alban, i fedrau gweithdy mewn senarios go iawn. Yn yr un modd, mae dysgwyr yn elwa ar gymryd rhan mewn ystod eang o gystadlaethau medrau cenedlaethol. Pan gaiff hyn yr effaith fwyaf, mae dysgwyr yn gwella'u gwydnwch ac yn datblygu hyder.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu diogel yn y coleg. Mae staff yn ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon ac yn cyfathrebu â meysydd cymorth mewnol ac asiantaethau allanol perthnasol yn effeithiol. Caiff hyn ei gryfhau gan berthnasoedd gweithio mewnol rhwng timau addysgu, lles a diogelu. Er enghraifft, mae ymarferwr iechyd meddwl y coleg yn gweithio'n agos gyda thimau addysgu, asiantaethau cymorth allanol a rhieni a gwarcheidwaid i sicrhau bod anghenion cymorth yn cael eu diwallu mewn modd amserol. Mae bron pob un o'r staff yn dangos dealltwriaeth gref o'u rôl mewn cadw dysgwyr yn ddiogel ac yn gwerthfawrogi'r ffaith fod unigolyn diogelu dynodedig wedi'i benodi'n benodol ar gyfer y dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai ar gyrsiau medrau byw yn annibynnol. Ceir arwyddion clir a pherthnasol o amgylch y campysau i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o sut i aros yn ddiogel mewn cyd-destunau perthnasol, er enghraifft arwyddion yng Nglynllifon yn adrodd ar ffigurau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gysylltiedig ag anafiadau angheuol mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota ym Mhrydain Fawr.

Mae'r coleg yn gwneud defnydd effeithiol o'u system rheoli gwybodaeth sefydledig i gofnodi a rhannu gwybodaeth bwysig am ddysgwyr, yn cynnwys presenoldeb, cynnydd, diogelu ac anghenion cymorth penodol. Er enghraifft, ar gampws Dolgellau, roedd arweinwyr yn nodi'r dysgwyr hynny yn disgyn islaw presenoldeb disgwyliedig a oedd wedyn yn cael eu cynorthwyo â sesiynau astudio yn y llyfrgell. Er bod y prosesau hyn ar waith i fonitro ac annog presenoldeb, nid yw ychydig o ddysgwyr yn mynychu'n ddigon da. At ei gilydd, mae llawer o ddysgwyr yn mynychu'n dda ac yn cyrraedd gwersi'n brydlon. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw

presenoldeb a phrydlondeb yn dda, ac mae pa mor dda y bydd athrawon yn herio dysgwyr sy’n hwyr yn rhy amrywiol, yn enwedig mewn dosbarthiadau ar gampws Llangefni.

Mae’r coleg a’i bartneriaid wedi datblygu prosesau pontio trylwyr i’r coleg, gan gynnwys ar gyfer y rhai nad ydynt wedi dod yn uniongyrchol o ysgolion, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr ag anghenion lles penodol. Maent wedi cryfhau eu perthnasoedd ag awdurdodau lleol, tai, gwasanaethau cymdeithasol, y bwrdd iechyd ac ysgolion bwydo i gefnogi prosesau pontio. Mae’r timau hyn yn gweithio gyda’i gilydd i gasglu ystod o wybodaeth ddefnyddiol i ddatblygu pasbortau disgyblion buddiol. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn dweud bod cyrsiau’n bodloni disgwyliadau ac y cawsant eu cynorthwyo’n dda trwy’r broses bontio.

**Sbotolau ar gefnogi pontio i’r coleg**

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi cryfhau ei berthynas â’i awdurdodau lleol partner a’i ysgolion yn sylweddol i gefnogi cyfnod pontio llwyddiannus dysgwyr i’r coleg. Mae’r coleg yn casglu ystod o wybodaeth fuddiol, yn cynnwys ADY, cyflyrau meddygol, statws siarad Cymraeg, p’un a yw pobl ifanc yn derbyn gofal, unrhyw wybodaeth am ddisgyblu ac anghenion iechyd meddwl. Maent yn defnyddio’r wybodaeth hon i ddatblygu ‘pasbortau disgyblion’ buddiol sy’n rhannu’r wybodaeth hon â’r holl bartïon perthnasol, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyngor a’r arweiniad cywir, a chymorth ag ADY a lles. Pan fydd gan ddysgwyr anghenion uchel, mae’r coleg hefyd yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio pontio unigol. O ganlyniad, dywed llawer o ddysgwyr eu bod yn cael cymorth da yn ystod y broses bontio hon.

Caiff dysgwyr gyfleoedd helaeth i rannu llais y dysgwr, ac maent o’r farn fod timau coleg yn gwrando ar eu safbwyntiau a’u barn. Yn ogystal ag arolygon ac adborth hygyrch i ddysgwyr trwy’r system diwtorial, caiff dysgwyr eu cynrychioli trwy gynrychiolwyr dosbarth a llywyddion myfyrwyr ar lefel campws, hefyd. Mae’r rhai sydd â’r rolau hyn yn rhagweithiol o ran eu hymagwedd. Er enghraifft, yn Llandrillo-yn-Rhos, mae llywyddion myfyrwyr yn ymgyrchu ar ran y dysgwyr sydd wedi mynegi pryderon am doriadau arfaethedig i gludiant cyhoeddus a chludiant i’r coleg. Mae’r coleg yn ymatebol i bryderon dysgwyr ac yn darparu cyfleoedd dysgu a chodi ymwybyddiaeth i ymateb i hynny, er enghraifft o ran aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Trwy gydol eu rhaglenni, ac yn enwedig tuag at eu diwedd, mae dysgwyr yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad buddiol o ran eu camau nesaf i gyfleoedd dysgu pellach ac uwch, a chyflogaeth**.** Pan mae hyn yn fwyaf effeithiol, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth glir o’u llwybrau dilyniant a’r gofynion ar gyfer llwyddo. Ceir enghreifftiau o ddysgwyr sydd wedi sicrhau cyflogaeth o ganlyniad i gyfleoedd profiad gwaith a lleoliad, yn ogystal â dysgwyr sydd wedi ailwerthuso eu llwybrau cynlluniedig ar sail cynnwys y cwrs a chyngor gan athrawon. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn ansicr am eu camau nesaf neu mae ganddynt ddisgwyliadau afrealistig oherwydd ansawdd amrywiol y cyngor a’r arweiniad i ddysgwyr.

I wella ymhellach, dylai’r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Presenoldeb a phrydlondeb
- Cysondeb o ran cyflwyno’r rhaglen diwtorial ar draws campysau

- Cysondeb o ran cyngor ac arweiniad ar gyfer dysgwyr ar eu camau nesaf

**Maes arolygu 3: arwain a gwella**

O dan arweinyddiaeth ei Brif Weithredwr hirsefydledig, mae Grŵp Llandrillo-Menai wedi llwyddo i feithrin a chynnal pwyslais ar ansawdd profiad y dysgwr ac ar anghenion y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae uwch arweinwyr wedi canolbwyntio ar effaith gymdeithasol y coleg. Mae cynllun strategol strwythuredig 2022-2027 yn amlinellu pum thema allweddol, y mae pob un ohonynt yn cynnwys blaenoriaethau clir a dangosyddion perfformiad allweddol diffiniedig. Mae'r themâu hyn yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, cymuned, cyfle i ddysgwyr a'u llwyddiant, medrau, gwybodaeth a chynaliadwyedd. Mae hyn yn helpu gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, aelodau staff, cymunedau a sefydliadau allanol i ddeall nodau'r darparwr. Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod gwaith y coleg yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y cynllun strategol yn dda.

Caiff y llywodraethwyr eu cymell gan y nod craidd i sicrhau bod pob campws a chanolfan gymunedol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan eu cymunedau. Mae ganddynt drosolwg clir o waith y coleg ac maent yn herio uwch arweinwyr yn rheolaidd ac yn effeithiol i gefnogi gwelliant. Mae eu pwyslais ar gynaliadwyedd, diogelu, cyllid, ystadau, llwyddiant dysgwyr a chyrhaeddiad graddau dysgwyr yn helpu canolbwyntio sylw ar yr agweddau hyn.

Mae gan y coleg ffocws strategol ar les staff, baich gwaith athrawon, dysgu proffesiynol ac effaith amgylcheddol. Gwnaed cynnydd gwerthfawr ym mhob un o'r agweddau hyn dros y misoedd diwethaf. Er enghraifft, trwy gydweithio rhwng rheolwyr a chynrychiolwyr staff, mae gwelliannau buddiol i brosesau mewnol wedi helpu gwella effeithlonrwydd a gwneud y defnydd gorau o amser aelodau staff ar draws y coleg.

**Sbotolau ar ymgynghori â staff a dysgwyr**

Mae arweinwyr yn gweithio'n ystyriol gyda staff a chynrychiolwyr dysgwyr i fireinio cynlluniau datblygu a llunio blaenoriaethau strategol. Maent yn ymgynghori'n eang, lle bo'n briodol, i gasglu barn ar ystod o destunau. Mae'r rhain yn amrywio o faterion ymarferol, fel gwella cofnodion digidol dysgwyr, i ystyriaethau sylfaenol fel eu gwerthoedd craidd. Mae arweinwyr wedi defnyddio barn dysgwyr lleol ac aelodau staff i lywio a blaenoriaethu'r rhaglen datblygu ystadau ar gyfer gwahanol safleoedd ar draws y Grŵp.

Dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae uwch arweinwyr wedi rhoi strwythur grŵp ar waith yn llwyddiannus, sy'n cefnogi pob coleg cyfansoddol tra'n hyrwyddo hunaniaeth unigryw pob coleg, a'i gysylltiadau â'r gymuned. Mae'r strwythur grŵp cydlynus yn darparu cymorth, datblygiad, arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol canolog, lle mae hyn yn fuddiol. Mae uwch arweinwyr yn cydnabod ac yn ymateb yn dda i nodweddion cymdeithasol ac economaidd y gwahanol gymunedau a bröydd y mae pob coleg yn eu gwasanaethu. Mae uwch arweinwyr wedi buddsoddi mewn bröydd penodol i sicrhau bod buddion darpariaeth a gwasanaethau coleg yn cael eu teimlo ar draws yr ardal ddaearyddol eang a wasanaethir gan y Grŵp. Er enghraifft, mae adleoli'r ddarpariaeth peirianneg i gyfleuster wedi'i adeiladu'n bwrpasol yn Y Rhyl wedi helpu codi proffil y campws ac i ehangu'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol.

Mae Grŵp Llandrillo-Menai yn ymatebol i anghenion cyflogwyr rhanbarthol a lleol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn addasu'r ddarpariaeth a gynigir i ymateb i dueddiadau'r farchnad lafur a'r galw gan ddysgwyr. Er enghraifft, mae cwmnïau mawr peirianneg awyrofod a thyrbinau gwynt wedi helpu ffurfio'r rhaglenni peirianneg estynedig a gynigir ar gampysau Llangefni a'r Rhyl. Mae dysgwyr sy'n dilyn y cyrsiau hyn yn elwa ar leoliadau gwaith fel rhan o'r rhaglenni hyn. Mae'r datblygiadau hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr wneud penderfyniadau strategol, fel adleoli o gampws Bangor i Barc Menai, a symud darpariaeth peirianneg o Landrillo-yn-Rhos i'r Rhyl.

Mae arweinwyr wedi cynnal arlwy eang o gyrsiau ar draws yr ardaloedd mwy gwledig. Maent yn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd tenau eu poblogaeth a'r Gymraeg yn dda i alluogi dysgwyr yn yr ardaloedd hyn i ddilyn eu diddordebau galwedigaethol neu academaidd ac ymgysylltu ag addysgu dwyieithog. Mae cyrsiau amrywiol mewn pynciau fel economeg, peirianneg a medrau byw yn annibynnol ar gael ar gampysau gwledig, ac mewn ardaloedd mwy trwchus eu poblogaeth yn ogystal.

Mae gan y darparwr rôl bwysig mewn ehangu arlwy'r cyrsiau sydd ar gael i ddisgyblion ysgol ar draws y rhanbarth i ychwanegu at eu hastudiaethau TGAU. Mae cydweithio sefydledig ac effeithiol ag awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych yn sicrhau bod bron i 2,000 o ddysgwyr 14 i 16 oed o amrywiaeth eang o ysgolion yn ymgymryd â chyrsiau galwedigaethol a gyflwynir gan Grŵp Llandrillo-Menai. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn symud ymlaen yn llwyddiannus i ddarpariaeth ôl-16 alwedigaethol yn y coleg. Mae trefniadau tebyg ar gyfer disgyblion chweched dosbarth wedi bod ar waith am sawl blwyddyn, hefyd. Mae bron i 300 o ddisgyblion chweched dosbarth ysgol rhwng 16 ac 19 oed yn manteisio ar hyn i elwa ar ystod o opsiynau pynciau cyffredinol a galwedigaethol lefel 3 yn y coleg, ac yn eu hysgol yn ogystal.

Mae gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddarlun clir a manwl o'r ddarpariaeth ac o ba mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni trwy drefniadau hunanwerthuso trylwyr. Trwy ddefnyddio system gynhwysfawr i olrhain data, mae arweinwyr ac athrawon yn defnyddio gwybodaeth amser real fanwl am garfanau o ddysgwyr i nodi tueddiadau a gwerthuso cynnydd. Defnyddir y dadansoddiad hwn yn dda i lywio hunanwerthuso a monitro effeithiolrwydd mentrau gwella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn ystyried ansawdd yr addysgu yn gyson a safon gwaith dysgwyr yn ddigon da fel rhan o'r broses hon. Mae hyn yn golygu nad yw ymdrechion i wella addysgu, gan gynnwys trwy rannu arfer dda, bob amser yn cael eu cyfeirio'n ddigon gofalus.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer gwerthuso cryfder cyrhaeddiad graddau dysgwyr ar draws cyrsiau perthnasol yn cael eu cymhwyso'n gyson. O ganlyniad, mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr yn gwerthuso cryfder deilliannau cymhwyster eu dysgwyr yn gywir, ac nid yw lleiafrif o athrawon yn gwneud digon i ymateb er mwyn cymell dysgwyr i gyflawni graddau uwch.

Mae proses adolygu ansawdd y darparwr yn nodi a chefnogi rhaglenni lle nodwyd pryderon. Caiff arweinwyr canol eu cefnogi'n llwyddiannus, ond fe gânt eu herio hefyd i sicrhau gwelliannau fel rhan o adolygiadau cynnydd rheolaidd. Mae gwaith ehangach arweinwyr i sicrhau gwelliannau yn effeithiol. Caiff hyn ei hwyluso gan gynlluniau gwella â ffocws, sy'n nodi'r meysydd allweddol i'w datblygu ac yn nodi

camau gweithredu perthnasol gyda graddfeydd amser priodol. Caiff cynnydd ei werthuso'n rheolaidd gan ddarparu trosolwg clir o ble mae gwelliannau yn cael effaith gadarnhaol, a ble mae angen gwneud mwy o waith.

Mae aelodau staff yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol. Mae'r gynhadledd addysgu a dysgu flynyddol ar gyfer pob ymarferwr yn canolbwyntio ar ddatblygu arfer ar draws ystod o flaenoriaethau a nodwyd yn ofalus. Er enghraifft, roedd y gynhadledd yn 2023 yn cynnwys ffocws ar ddefnyddio dulliau adferol a dulliau sy'n ystyriol o drawma i helpu meithrin perthnasoedd cadarnhaol â dysgwyr, lleihau gwrthdaro a chefnogi cyrhaeddiad.

**Sbotolau ar ddatblygiad proffesiynol arbenigol**

Mae dau athro wedi meithrin cysylltiadau agos â chwmni blaenllaw meddalwedd cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur (CAD). Maent wedi elwa ar hyfforddiant helaeth ar ddefnydd datblygedig o becyn CAD, gan ymestyn eu gwybodaeth a'u medrau, y maent wedyn yn eu rhannu â dysgwyr ac aelodau staff eraill. Mynychodd y ddau athro gynadleddau hyfforddiant y cwmni dramor yn 2022 a 2023 lle rhoesant gyflwyniad i ymarferwyr CAD o bob cwr o'r byd. Mae'r cwmni meddalwedd CAD wedi rhoi argraffydd 3D mawr i'r coleg i gefnogi dysgu, sy'n ddefnyddiol.

Mae aelodau staff yn defnyddio 'diwrnodau adolygu a gwerthuso' i'w galluogi i rannu arfer dda a gweithio gyda'i gilydd i yrru gwelliant. Er enghraifft, defnyddiodd y tîm diwydiannau gwasanaeth y cyfle hwn i gydweithio a sicrhau bod ei ddarpariaeth ddwyieithog a Chymraeg yn diwallu anghenion dysgwyr.

**Sbotolau ar ddulliau ffermio cynaliadwy**

Mae campws diwydiannau amaethyddiaeth a bwyd Glynllifon yn hyrwyddo cynaliadwyedd a gofal anifeiliaid er mwyn ymateb i ymdrech Llywodraeth Cymru i ddatblygu ffermio cynaliadwy a chynhyrchu bwyd lleol. Maent wedi buddsoddi mewn addasu'r cyfleusterau i leihau effaith amgylcheddol ffermydd godro i'r eithaf, gan gynnwys datblygu cyfleuster godro defaid. Maent hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol i alluogi dysgwyr i ddysgu sut i ddefnyddio tractor robotig cwbl awtonomaidd i uchafu effeithlonrwydd mewn ffermio.

Mae uwch reolwyr yn rheoli cyllid y coleg yn dda. Maent yn cynllunio'n rhagweithiol i ystyried tueddiadau economaidd lleol a chenedlaethol, newidiadau cyllid, a datblygiadau technolegol. Maent yn buddsoddi yng nghyfleusterau'r coleg mewn ffordd gost effeithiol a blaenoriaethol. Rhoddir cyfleusterau ac offer datblygedig ar waith lle mae hyn o fudd i ddysgwyr ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, buddsoddwyd dros £50m yn seilwaith y coleg gan ddefnyddio cyllid Cymunedau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â rheolaeth ariannol ddarbodus, sydd wedi galluogi'r coleg i ariannu ei gyfraniad heb fod angen benthyciadau allanol.

I wella ymhellach, dylai arweinwyr y coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Gwerthuso a chynllunio gwelliant i wella cyrhaeddiad graddau uchel ar yr holl gyrsiau gan arwain at gymwysterau graddedig

- Gwerthuso'r addysgu, yr asesu, a safon gwaith dysgwyr yn gyson fel rhan o brosesau hunanwerthuso er mwyn llywio gwelliant effeithiol a rhannu arfer dda

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn achosi unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r prif weithredwr, llywodraethwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth, gweithdy ac ar-lein ar draws y ddarpariaeth
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/06/2024